



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Canolfan Cefnogaeth GwE



Mae safle Canolfan Cefnogaeth GwE yn fyw ac ar gael i ysgolion weld unrhyw adnoddau a ddatblygwyd ac a rannwyd yn ystod y cyfnod COVID. Mae modd cael mynediad i'r Ganolfan drwy glicio'r ddolen [hon](#) neu drwy wefan GwE.

CANOLFAN CEFNOGAETH GWE

GWE SUPPORT CENTRE

SAFMEDS: Gweminar

07/10/2020 – 3.45pm-4.45pm (Sesiwn cyfrwng Cymraeg). Cliciwch ar y [ddolen hon](#) i ymuno â'r sesiwn cyfrwng Cymraeg.

06/10/2020 – 3.45pm-4.45pm (Sesiwn cyfrwng Saesneg). [Cliciwch yma](#) i ymuno â'r sesiwn cyfrwng Saesneg.

Rhifedd Cynradd ac Uwchradd - Cyflwyniad i'r adnoddau SAFMEDS newydd a fydd yn cefnogi'r Rhaglen Dysgu Carlam mewn ysgolion. Yn addas ar gyfer pob ysgol, gan gynnwys ysgolion nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant SAFMEDS o'r blaen.

Addas i Uwch Arweinwyr, Athrawon a Staff Cymorth.

Os na allwch ymuno â'r sesiwn bydd dolen ar gael i wyllo'r recordiad pan mae'n gyfleus.

Anfonwch e-bost i llythrenneddarhifedd@gwegogledd.cymru os oes gennych unrhyw gwestiwn



Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen - Tymor yr Hydref

Iechyd a Lles: Strategaethau i gefnogi'r dysgu.

CYFARFOD CYFRWNG CYMRAEG: 15/10/2020 - 16:00-17:00

[YMUNWCH Â'R CYFARFOD YN GYMRAEG.](#)

CYFARFOD CYFRWNG SAESNEG: 12/10/2020 - 16:00-17:00

[YMUNWCH Â'R CYFARFOD YN SAESNEG.](#)



TGAU: Llenyddiaeth Gymraeg

DYDD MAWRTH, 13 HYDREF 2020 - 09:00-10:00

Gwahoddiad i gyflwyniad byw er mwyn lansio gwefan ryngweithiol newydd ac adnoddau dysgu a grëwyd gan weithgor yn cynnwys aelodau o bob rhan o Gymru i gefnogi dysgwyr i astudio a mwynhau'r nofel 'Llyfr Glas Nebo' gan Manon Steffan Ros. [COFRESTRWCH YMA.](#)



Asesiadau Personol *BYW*

- Mae gwefan Hwb Asesiadau Personol bellach yn fyw ar gyfer Rhifedd (Gweithdrefnol) a Darllen (Cymraeg a Saesneg).
- NI FYDD FFENESTR BROFI STATUDOL AR GYFER MIS MAI 2021, NAC YN UNRHYW FLWYDDYN AR ÔL HYNNY.**
- Mae asesiadau personol ar-lein ar gael trwy gydol y flwyddyn academiaidd i fod yn ddull hyblyg i ysgolion gasglu gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd eu dysgwyr. Anogir ymarferwyr i ddefnyddio'r asesiadau hyn ar adeg yr ystyrir sy'n briodol i gefnogi cynnydd dysgwyr unigol, ac i'w helpu i adnabod y camau nesaf yn y dysgu. Ceir canllawiau ar gyfer hydref 2020 yma: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/canllawiau-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-dymor-yr-hydref.pdf>
- Mae gweminar wedi'i recordio i gefnogi'r Asesiadau Personol, yn esbonio sut i ddeall a defnyddio'n effeithiol adborth ar ddysgwyr ac adroddiadau grŵp, ar gael [yma](#).
- Ni fydd Asesiadau Personol Ymresymu Rhifyddol eleni gan y bu oedi yn y treialu oherwydd Covid-19. Ni fydd Asesiadau Personol Ymresymu Rhifyddol tan blwyddyn academiaidd 2021/22.
- Cyhoeddir llawlyfr gweinyddu newydd yr asesiadau personol ar gyfer 2020/21 maes o law: <https://hwb.gov.wales/cwricwlm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol/#guidance-for-schools>
- Anfonwch unrhyw ymholiadau i profion@gwegogledd.cymru

BookSlam 2020-2021

HER DDARLLEN [SAESNEG]

Mae *BookSlam* yn her ddarllen hwyliog i ddisgyblion oedran cynradd yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth [yma](#). Gellir lawrlwytho'r rhestr lyfrau [yma](#).

[Cliciwch yma](#) i weld yr heriau a'r adnoddau i ddatblygu sgiliau adolygu llyfrau.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â threfnydd rhanbarthol GwE:

Vicky Lees • Vickylees@gwegogledd.cymru • 07966 266973



Defnyddio Dull Rhuglder Cyfarwyddiadol i Addysgu Sgiliau Adio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion: Astudiaeth Beilot



Cyhoeddwyd gwaith diweddar GwE yn UCD Conwy yn ddiweddar yng Nghylchgrawn Addysg Cymru. [Cliciwch yma](#) i ddarllen yr erthygl.

Cyfleoedd a Rhaglenni Datblygu Proffesiynol GwE

Cyfle cyffrous i Gynorthwyyr Addysgu newydd!



Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwyyr Addysgu** ar gyfer unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan digidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwyyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Arweinyddiaeth Ganol Eithriadol mewn Cyfnod Cythryblus



GWEITHDAI I YSGOLION UWCHRADD

Cynnwys y rhaglen - cyflwynir ar ffurf pedwar rhith-weithdy rhyngweithiol, sy'n para awr yr un.

Mae arweinyddiaeth mewn ysgolion yn newid drwy'r adeg - ac yn fwy nag erioed o'r blaen yn ystod y cyfnod cythryblus hwn. Un o nodau'r rhith-weithdai rhyngweithiol hyn yw rhoi'r cyfle i Arweinwyr Canol fyfyrir ar eu barn nhw ar Arweinyddiaeth yn ystod pandemig ac edrych ar arferion ac arloesedd yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol, ochr yn ochr â'n cyd-destun lleol ni. [Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

Gyda heriau anferthol i'w hwynebu o ran logisteg, sylweddolwn nad oes gan bob ysgol Arweinwyr Canol sydd yn barod i ddysgu'n broffesiynol y tymor hwn, felly gwirfoddol yw'r gweithdai. Bydd cyfle i ymuno â charfan arall unwaith eto yn Nhyrnor y Gwanwyn/Haf.

Mae lle i ddau aelod o bob ysgol uwchradd ar y gweithdai. Gofynnir i chi gwblhau'r [Ffurflen Gofrestru yma](#) erbyn **Dydd Llun, 19 Hydref, 2020**

Rhaglenni Datblygu

[Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid – Paratoi ar gyfer CPCP 2021-22](#)

DYDDIAD CAU: 03/11/2020

Mae'r rhaglen ddatblygu hon dros flwyddyn yn gyfle dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr ysgol profiadol sy'n dymuno bod yn benaethiaid yn y dyfodol. Mae angen cwblhau'r rhaglen 5-diwrnod hon er mwyn cael mynediad at yr asesiad CPCP yn 2022.

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth.

Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

Yn 2020-21, bydd newidiadau **sylweddol** i reoliadau Sefydlu ANG, a bydd yn bwysicach nag erioed bod pob Mentor Sefydlu ysgol (MS), ANG a Gwiriwr Allanol (GA) yn mynychu un o'r sesiynau hyfforddi/ briffio cenedlaethol. Bydd ystod o sesiynau pwrpasol ar-lein ar gyfer pob rôl.

[Dylai ysgolion enwebu MS i fynychu sesiwn hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi penodi athro fydd yn ANG ym mis Medi ar hyn o bryd, gan fod y mwyafrif o ysgolion yn cyflogi ANG ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd].

[Cliciwch yma](#) am fwy o wybodaeth/am ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi.



Dyfodol Byd-Eang GwE- ITM: Ysgolion uwchradd.



CYFLEOEDD I FANTEISIO ARNYNT!

Cynllun Mentora Myfyrwyr 2020: Mae'n newydd sbon, yn cadw at reolau Covid ac yn hyblyg!

Cynllun mentora BI 8/9:

Er mwyn cofrestru ar gynllun blwyddyn 8/9, cysylltwch â OwenGH@cardiff.ac.uk.

Adnoddau athrawon CA3/CA4: 12 Hydref 2020.

ADNODDAU WYCH!!!

Cysylltwch â BeckleyR@cardiff.ac.uk i ymuno â'r grŵp a chael mynediad at yr adnoddau.

Cynllun mentora myfyrwyr: Sesiynau siarad a seminarau Safon U ac UG: Cychwyn mis Tachwedd 2020.

RHAGLEN WYCH!!!!: Gall myfyrwyr gofrestru o fis Hydref.

Cysylltwch â KirkbyR1@cardiff.ac.uk am fwy o fanylion neu dilynwch y cyswllt isod.

Am fwy o wybodaeth, ewch ar:

Saesneg: <https://sway.office.com/nozIRHxJhcQMCH2H>

Cymraeg: <https://sway.office.com/Dwo4EWj6xp2oG8sS?ref=Link>

Dyfodol Byd-Eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol: Cyfleoedd Hyfforddi i Athrawon Ysgolion Cynradd

CERDD IAITH: Defnyddio dulliau creadigol i ddysgu ieithoedd

SBAENEG / CYMRAEG / SAESNEG

Mae British Council Cymru yn cynnig **rhaglen hyfforddi ar-lein** newydd i helpu athrawon ysgolion cynradd i **addysgu trydedd iaith** yn y dosbarth. Bydd y rhaglen hyfforddi'n tywys athrawon drwy adnoddau gwefan newydd [Cerdd iaith](#). Mae'r wefan a'i hadnoddau ar gael am ddim ac yn cynnwys dros 30 o weithgareddau sy'n defnyddio cerddoriaeth a drama i ddysgu Cymraeg a Sbaeneg.

Am fwy o wybodaeth, manylion costau a sut i gofrestru ar gyfer sesiwn, cysylltwch â

stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

GOETHE INSTITUTE: Hyfforddiant i Athrawon Cynradd

ALMAENEG

Defnyddio Rhythm a Chaneuon mewn Ystafell Ddosbarth Almaenig Gynradd: **14-10-2020, 5pm – 5:40pm**

https://www.goethe.de/ins/gb/en/spr/unt/ver/ver.cfm?fuseaction=events.detail&event_id=21968482

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru



Hoffai Gwasanaeth Plant y Lluoedd Arfog yng Nghymru eich cyflwyno i'r swyddog cyswllt ysgolion newydd ar gyfer Gogledd Cymru. [Cliciwch yma](#).



Helpwch eich plentyn i ddysgu darllen - Cwrs ar-lein ac am ddim i rieni

Bydd y cwrs ar-lein hwn yn helpu rhieni i fagu hyder i ddefnyddio rhywfaint o dechnegau sylfaenol i gynorthwyo eu plentyn i ddysgu darllen. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o strategaethau llythrennedd a sut i'w defnyddio gartref, yn arddangos rhywfaint o weithgareddau a gemau difyr, ac yn trafod adnoddau cartref a masnachol i gynorthwyo plentyn i ddysgu.

Cwrs nesa yn dechrau 13 Hydref

Gellir trefnu cyrsiau pwrpasol ar gyfer grŵp o rieni o un ysgol neu glwstwr

Am fwy o wybodaeth cliciwch yma: <https://www.adultlearning.wales/cym/cwrs/40277>

Unrhyw gwestiwn? Anfonwch e-bost i jane.watkins@addysgoedolion.cymru

At sylw Cydlynwyr BAC/Tystysgrif Her Sgiliau

Sgiliau'r Dyfodol: Ymgynghoriad ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch a Bagloriaeth Uwch Cymru

Bydd y [ddolen hon](#) yn mynd â chi i'r wefan sydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Bydd yr ymgynghoriad Sgiliau'r Dyfodol ar agor am gyfnod o 8 wythnos, a bydd yn cau am **hanner dydd 13 Tachwedd**.

Nodyn Atgoffa: Mae modd cofrestru ar gyfer Pori Drwy Stori Meithrin 2020 nawr!

Cliciwch [yma](#) i gofrestru: <https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=159257105264>

Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, ar sail y cyntaf i'r felin.

Dyddiad cau: **13 Hydref 2020**.

Ceir rhagor o fanylion am Pori Drwy Stori [yma](#).

post@gwegogledd.cymru

